

Cyngor Cymuned Llanelian (259)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Tachwedd 11, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Helen Hughes John Griffiths Glenys Jones	Thomas D Jones Hefina Williams Cyng. Richard Jones Carol Whitaker	T Elfyn Hughes Gordon Hayes Cyng. Aled Morris Jones David Herbert
------------	--	--	--

Ymddiheuriadau: David Gerrard

- 1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**
- 2 Datgan Diddordeb**
Richard Jones – Ceisiadau cynllunio
- 3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio Thomas D Jones.
- 4 Materion yn Codi**
 - 4.1 Caeau Chwarae –
Cafwyd cadarnhad mai'r Gwasanaeth Prawf sydd wedi bod yn paentio'r offer chwarae yn y gorffennol. Cytuno y dylid gofyn iddynt hwy wneud y gwaith eto unwaith bydd unrhyw waith i'r offer wedi ei gwblhau. CET

Deallwyd gan y cyn-glerc mai GL Jones fyddai yn trwsio'r offer pan fydd angen. Cytuno ail edrych ar yr adroddiad gan ROSPA i weld yn union beth oedd angen ei wneud a chael pris gan y cwmni. CET

Bydd aelodau Partneriaeth Llwyfo yn trefnu dyddiad cyfarfod i drafod dyfodol y cae chwarae ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf. TEH
DG
GH
CW
 - 4.2 Polisiâu -
Bydd cyfarfod i drafod y polisiâu yn cymryd lle 20/11/2014 er mwyn gallu symud ymlaen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Rhagfyr. CET
DG
THE
HW
 - 4.3 Golau y tu allan i'r Neuadd –
Mae'n debyg mail on breifat yw'r lon ger y Neuadd ac felly nid oes gofyn i'r Cyngor Sir ei oleuo. Fe ofynnwyd i'r Clerc gysylltu â hwy eto a gofyn am bris a / neu enw contractwr a fyddai yn gallu gosod golau ar y lon y tu allan. CET
- 5 Cynllunio**
 - 5.1 Ceisiadau – CET
Daw pedwar cais i'w ystyried, y cwbl yn gofyn am estyniad i'r caniatâd gwreiddiol -
Tyddyn Mawr 24C253/VAR
Rhosymynach Isaf 24C223C/VAR
Rhosymynach Mawr 24C54C/VAR
Bryn Fuches 24C238B/VAR

Nodwyd nad oedd y Cyngor wedi gwrthwynebu'r ceisiadau gwreiddiol gan fod y Cynulliad yn argymhell bod ffermwyr yn arall gyfeirio. Mae nifer o'r unedau eraill ar y Stad wedi eu datblygu yn barod.

Cytuno peidio gwneud sylw ar y ceisiadau y tro hwn. Cynnig T Elfyn Hughes, eilio TD Jones, pawb yn gytûn..
 - 5.2 Penderfyniadau –
Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir bod cais Pen Slatas am stablau wedi ei ganiatáu.
- 6 Materion Ariannol**
 - 6.1 Taliadau – CET
Yr unig daliadau i'w cymeradwyo oedd ad-dalu blaendal am 48 o oriadau llithrfa, £20 yr un (£860)
 - 6.2 Ceisiadau am arian –
Cafwyd ceisiadau am arian gan Eisteddfod Llangollen, Theatr Bara Caws, Canolfan Therapi Plant Bobath. Fe gytunwyd peidio â'u cefnogi gan fod arian yn brin a gan nad oedd y llythyrau wedi eu hanelu at y Cyngor na'r Clerc yn bersonol ac mai llythyrau cyffredinol oeddent. Nodwyd hefyd nad oedd y ceisiadau gan fudiadau oedd yn lleol i gymuned Llanelian.

7 Mynwent

Dosbarthwyd adroddiad yn dilyn cyfarfod is-bwyllgor y fynwent i'r holl aelodau a nodwyd ei gynnwys.

Nodwyd bod WE Jones wedi cadarnhau y byddent yn gallu dechrau ar y gwaith ar y llwybrau yn ystod yr ail wythnos yn Ionawr.

Cafwyd diweddariad gan y Clerc yn dilyn trafodaeth a CADW am y giât. Mae'r clerch yn disgwyl ymateb gan Mr Roy Ashworth er mwyn trafod y prosiect ymhellach. CET

Dosbarthwyd copi o'r Polisi Meinciau wedi ei ddiweddarau yn dilyn trafodaeth yn yr is-bwyllgor. Mabwysiadwyd y newidiadau yn ffurfiol, gyda'r polisi i'w arolygu pan fo'r angen.

8 Gohebiaeth

8.1 Rhifyn diweddaraf Dan Do Môn

8.2 Rhifyn diweddaraf Clerk and Councils Direct.

9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Hyfforddiant Cod Ymddygiad - yn dilyn hyfforddiant diweddar, fe ddisbarthodd y Clerc gopiâu o'r cyflwyniad i'r holl aelodau oedd yn bresennol er gwybodaeth

9.2 Giat Mynwent Bosra - nodwyd bod angen gwaith ar y giat a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Henaduriaeth Môn i'w hysbysu. CET

9.3 Nodwyd bod y ffos ger ochr y ffordd rhwng Tŷ Canol a'r Orsaf Radio yn beryglus ac angen sylw. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r adran briffyrdd i'w hysbysu.

9.4 Wylfa Newydd – mae'r cam cyntaf o'r ymgynghoriad mawr yn cymryd lle ar hyn o bryd. Nodwyd bod y ddogfen ymgynghori yn amhendiant iawn ac nad oedd llawer o fanylder. Fe gytunwyd bod angen ymateb fel Cyngor gan godi ymwybyddiaeth am bwyntiau sydd yn bwysig i ni fel ardal leol. Mae'r pwyntiau yma yn cynnwys – CET DG

- Bydd angen gwelliannau i'r A5025 yn enwedig rhwng Amlwch a Chemaes.
- Bydd pwysau ychwanegol ar y ganolfan iechyd a gwasanaethau tebyg (dim ond un ambiwlans sydd yng ngogledd Cymru gyda'r nos)
- Bydd pwysau ychwanegol ar y ganolfan hamdden
- Diogelwch safle - angen cadarnhad bydd cysondeb yng ngwasanaeth y CNC
- Gofynnwyd i'r cwmni ystyried dod a nwyddau i'r safle gyda thrên yn hytrach nac ar y lon.

Nodwyd bod petitiwn ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud a chodi tai dros dro ar dir y Cyngor Sir yn Rhosgoch er mwyn cartrefu'r gweithwyr fydd ynghlwm a Wylfa Newydd.

Cytuno i'r Clerc a'r Cadeirydd ysgrifennu ymateb yn seiliedig ar y pwyntiau uchod cyn y dyddiad cau ddechrau Rhagfyr. Os oes unrhyw un ag unrhyw beth arall i'w gynnwys gofynnir iddynt gysylltu â'r Clerc a/neu'r Cadeirydd cyn gynted â phosib.

10 Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf – 9/12/14

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.30 o'r gloch.